## Ein nod yw cwmpasu cymaint o'r boblogaeth â phosibl ac osgoi tangynrychioli unrhyw un grŵp

Ym 1991 roedd y Cyfrifiad yn llwyddiant yn yr ystyr ei fod wedi cwmpasu 98% o'r boblogaeth. Fodd bynnag, roedd y 2% oedd yn weddill wedi'i grynhoi mewn rhannau penodol o'r gymuned, yn hytrach na'i fod wedi'i rannu'n gyson ledled y gymdeithas. Gallai'r gogwydd hwn yn erbyn grwpiau penodol effeithio ar faint o adnoddau y maent yn eu derbyn gan Lywodraeth leol a chanolog a asesir gyda help gwybodaeth y cyfrifiad.

### Grwpiau a dangyfrifwyd

Y grwpiau a gollwyd fwyaf yng Nghyfrifiad 1991 oedd:

- Pobl ifanc (20 i 29 oed) sy'n dueddol o fod yn ddynion; yng nghanol dinasoedd. Ymysg y rhesymau mae'r anhawster o gael gafael arnynt oherwydd eu ffordd o fyw a'r duedd i lawer ohonynt rannu'r un llety.
- Babanod (o dan 14 mis). Ymysg y rhesymau a roddwyd mae'r ffaith bod y baban yn yr ysbyty ar Ddiwrnod y Cyfrifiad a'i fod wedi'i hepgor oddi ar y ffurflen gan ei rieni.
- Yr henoed, yn arbennig merched mewn oed. Ymysg y rhesymau mae'r ffaith eu bod yn byw ar eu pennau eu hunain; anawsterau wrth ateb y drws neu wrth lenwi'r ffurflen.
- Myfyrwyr. Ymysg y rhesymau mae dryswch ynglŷn ag a ydynt yn byw yng nghyfeiriad eu rhieni neu yn y cyfeiriad yn ystod y tymor.
- Cymunedau ethnig. Ymysg y rhesymau mae anawsterau ieithyddol; amheuaeth.

### Camau sicrhau cyn lleied o danysgrifio â phosibl

#### Y rhaglen Cyswllt Cymunedol

Mae gan Brydain ystod eang o sefydliadau gwirfoddol gyda'r potensial o roi sicrwydd am nodau'r Cyfrifiad i bobl y maent yn eu cynrychioli ac i gynnig helpu wrth gwblhau'r ffurflen ar gyfer y rhai sydd ei angen.

Cysylltwyd â'r rhan fwyaf o'r grwpiau sy'n cynrychioli'r henoed, cymunedau ethnig, gwahanol grefyddau, pobl ag anableddau a nam ar eu synhwyrau gyda'r Ganolfan Cynghori a sefydliadau elusennol eraill. Creodd cyfres o sioeau teithiol rhanbarthol ledled Cymru a Lloegr gronfa ddata o unigolion a sefydliadau sydd wedi addo helpu. Yn ogystal â help ymarferol gallant hefyd roi cefnogaeth gyhoeddus i'r Cyfrifiad yn eu cymunedau a helpu i hybu ymgyrch cyhoeddusrwydd y Cyfrifiad.

YSTADEGAU GWLADOL

Paratowyd gan Adran y Cyfrifiad,
Swyddfa Ystadegau Gwladol
Tel: 01329 813800
e-bost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk

Cymru'n cyfri
Cyfrifiad2001

**Taflenni ffeithiau eraill:**


1. Y Cyfrifiad
2. Pam Bod Angen Cyfrifiad Arnom
3. Cyfrifiad 2001 – Beth sy'n Newydd?
5. Trefniadaeth y Cyfrifiad
6. Swyddi'r Cyfrifiad
7. Y Cyfrifiad a'r Gyfraith
8. Y Cyfrifiad drwy'r Oesoedd


**Ymgyrch cyhoeddusrwydd y Cyfrifiad – 'Cymru'n Cyfri'**
Caiff ymgyrch hysbysebu a chysylltiadau cyhoeddus genedlaethol fawr ei lansio wedi'i hanelu at greu ymwybyddiaeth eang o'r Cyfrifiad ond hefyd wedi'i thargedu'n arbennig tuag at yr aelodau hynny o'r gymdeithas sydd fwyaf tebygol o fod ag amheuon ynglŷn â chymryd rhan. Mae'r ymgyrch 'Cymru'n Cyfri' yn pwysleisio'r angen y dylid cyfrif pawb yn y Cyfrifiad a'r manteision a ddaw yn sgîl y Cyfrifiad. Y bwriad yw bod neges 'Cymru'n Cyfri' yn cael ei derbyn a'i throsglwyddo gan sefydliadau gwirfoddol i'r cymunedau maent yn eu gwasanaethu.

**Grwpiau poblogaeth arbennig – cyfrif yr eithriadau**
Ceir ystod o grwpiau y mae'n rhaid i'r Cyfrifiad wneud trefniadau arbennig ar eu cyfer os am eu cyfrif.

Mae dulliau arbennig yn cael eu datblygu a'u cytuno gydag adrannau perthnasol o'r Llywodraeth, asiantaethau a chyrff allanol mewn perthynas â'r canlynol:

- Lluoedd EM – cyswllt i gynnwys cyfrif aelodau o'r lluoedd sydd dramor neu sy'n absennol ar noson y Cyfrifiad;
- Myfyrwyr – penodi 'Pencampwyr Myfyrwyr', aelodau o'r gweithlu maes cyfrifo sy'n fyfyrwyr;
- Pobl sy'n byw ar y strydoedd – ymgynghorir ag awdurdodau lleol ac elusennau'r digartref drwy'r DETR (Adran yr Amgylchedd, Trafnidiaeth a'r Rhanbarthau) a Chynulliad Cenedlaethol Cymru i nodi'r dull, yr amser a'r lleoedd priodol i gyfrif y rhai sy'n byw ar y strydoedd;
- Carchardai – gwneir trefniadau arbennig drwy'r Gwasanaeth Carchardai (Swyddfa Gartref);
- Cartrefi Brenhinol;
- Llysgenadaethau;
- Llongau Masnachol;
- Ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Hefyd cysylltir â grwpiau eraill sy'n cynrychioli'r canlynol:

- Sipsiwn a Theithwyr;
- Syrcasau/Ffeiriau.

## Cyswllt ar gyfer gwybodaeth bellach:


**Ymholiadau'r wasg yn unig:**
Ffôn: 020 7533 5160

**Ymholiadau cyhoeddus yn unig:**
Census Customer Services
Room 4300S
Office for National Statistics
Segensworth Road
Titchfield
PO15 5RR

Ffôn: 01329 813800
Ffacs: 01329 813587

ebost: census.customerservices@ons.gov.uk
gwefan: www.statistics.gov.uk